# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Parc y Bont**

**Ysgol Gynradd Parc y Bont**
**Llanddaniel-Fab**
**Gaerwen**
**LL60 6HB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**4 Gorffenaf 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Lleolir Cylch Meithrin Parc y Bont o fewn ei ystafell neilltuedig ei hun yn yr ysgol gynradd ym mhentref Llanddaniel-fab ar Ynys Môn. Mae gan y gwasanaeth hefyd ddefnydd o neuadd yr ysgol, ardal chwarae awyr agored a chyfleusterau ystafell ymolchi. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 28 o blant ar unrhyw un adeg. Mae'r sesiynau yn rhedeg o 12.30pm i 3pm, o ddydd Llun i ddydd Iau yn ystod tymor yr ysgol. Mae gan y gwasanaeth dri unigolyn cyfrifol enwebedig: Iwan Taylor, Clair Doloriert a Martin Kelly-Roberts, a'r person â gofal sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth yw Sophie Williams. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'r 'cynnig gweithredol', sy'n golygu bod modd i blant a rhieni gyfathrebu â staff drwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod gofyn am hyn.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, yn teimlo'n gyfforddus wrth fynegi eu safbwyntiau ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol gyda'r staff. Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac iach, ond mae angen iddynt sicrhau eu bod yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant fod yn gorfforol egnïol. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac mae pob ardal yn groesawgar ac yn ddiddorol i blant, ond nid yw'r arweinwyr wedi asesu'r holl risgiau a pheryglon sy'n wynebu'r plant ynghyd â sut maent yn cynllunio i reoli neu ddileu'r rhain. Ffurfiwyd perthnasau da â rhieni ac â phartneriaid allanol, a rhennir gwybodaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, mae angen i'r arweinwyr sicrhau bod gweithdrefnau cyflogi cadarn ar waith er mwyn sicrhau addasrwydd yr holl staff fydd yn gweithio gyda'r plant.

### 2. Gwelliannau

Ers ein hymweliad rydym hefyd wedi derbyn tystiolaeth o rywfaint o'r dogfennau a oedd ar goll o ffeiliau'r staff. Rydym wedi derbyn Tystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac un geirda.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi hysbysu arweinwyr bod angen gwelliannau sy'n ymwneud â'r wybodaeth a gynhwysir yn y ffeiliau staff, a nodi a monitro peryglon i ddiogelwch y plant er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llwyr.Rydym wedi hysbysu arweinwyr bod angen gwelliannau sy'n ymwneud â'r wybodaeth a gynhwysir yn y ffeiliau staff, ac nodi a monitro peryglon i ddiogelwch y plant er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llwyr. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio y tro hwn am nad oedd tystiolaeth o effaith ar

blant na risg sylweddol iddynt. Rydym yn disgwyl i'r arweinwyr weithredu er mwyn cywiro hyn.

Mae argymhellion wedi'u gwneud sy'n ymwneud â darparu cyfleoedd i blant ddysgu sgiliau annibynnol, cynllunio gweithgareddau a chadw cofnodion.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn teimlo'n gyfforddus wrth fynegi eu safbwyntiau. Mae ganddynt berthnasau da â'r staff ond byddent yn elwa ar dderbyn rhagor o gyfleoedd i ddysgu sgiliau annibynnol a chymryd rhan mewn gweithgareddau o dan arweiniad oedolyn.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn rhydd i wneud dewisiadau ac yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt.

Mynegodd plant eu safbwyntiau a'u barn yn hyderus yn ystod amser cylch ac roeddent yn awyddus i gymryd rhan. Roedd pob ymdrech i gyfathrebu â'r staff yn cael ei gwerthfawrogi ac roedd y plant yn hyderus y byddai'r staff yn gwrando arnynt. Er enghraifft, gofynnodd un grŵp o blant am weithgaredd lliwio. Gwnaeth un aelod o staff helpu i nôl y pennau lliwio a phapur yn brydlon. Am fod cymaint o blant yn awyddus i ymuno, dechreuodd yr aelod o staff osod tasgau bach iddynt eu cwblhau. Roedd y plant yn gallu symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau oedd ar gael fel y dymunent ac roeddent yn hyderus i wneud hynny.

Mae gan y plant nifer o gyfleoedd i fynegi eu hunain a gwneud dewisiadau.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus, yn gyfforddus ac yn hyderus. Mae'r plant wedi ffurfio perthynas glòs â'r staff sy'n eu hadnabod yn dda.

Roedd y plant yn hapus ac yn gyfforddus yn eu hamgylchoedd. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r gweithgareddau oedd ar gael a'r drefn ddyddiol ac roeddent wedi ffurfio perthynas glòs â'r staff. Er enghraifft, roeddent yn adnabod caneuon amser cylch yn dda ac roeddent yn awyddus i gymryd rhan ac efelychu'r ystumiau.Er enghraifft, roeddent yn adnabod caneuon amser cylch yn dda ac roeddent yn awyddus i gymryd rhan a efelychu'r ystumiau. Gwnaeth un plentyn fynd at aelod o staff yn ystod amser cylch a gofyn am gofleidiad, a rhoddwyd un yn brydlon. Roedd y plant yn gwybod eu bod yn gallu mynd at staff i gael help neu sicrwydd pan oedd ei angen arnynt. Er enghraifft, roedd un plentyn braidd yn ansicr a dywedodd fod ganddo fola tost. Aeth at aelod o staff a gwnaeth yr aelod o staff roi cysur a sicrwydd i'r plentyn yn brydlon. Roedd y plant yn hyderus i ddod atom a dangos lluniau yr oeddent wedi tynnu wrthym, gan ddangos eu bod yn ddiogel yn eu hamgylchoedd. Roedd y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac roedd ganddynt ymdeimlad o falchder pan oedd eu cyflawniadau yn cael eu dathlu. Er enghraifft, rhoddodd un plentyn wên fawr pan gafodd ei ganmol gan aelod o staff a phan ddywedwyd wrtho pa mor wych oedd ei lun.

Mae'r plant wedi ymgartrefu, yn fodlon ac yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni.

## 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau creu cyfeillgarwch ac yn dysgu cydweithio gyda'i gilydd.

Roedd y plant yn hapus i gymryd eu tro a rhannu adnoddau, ac roeddent yn mwynhau gwneud pethau gyda'i gilydd. Roeddent yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau ac roeddent yn awyddus i gynnwys ei gilydd mewn gweithgareddau. Gwelsom ddau blentyn yn sgwrsio gyda'i gilydd wrth chwarae gyda ffigurau dinosoriaid bach. Gwnaethant siarad am y teganau oedd ganddynt gartref a pha ddinosor yr oeddent yn ei hoffi orau. Roedd dau blentyn yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu tŵr gyda'r deunyddiau adeiladu. Gwnaethant siarad gyda'i gilydd gan osod cyfarwyddiadau i'w gilydd ynglŷn â ble i osod blociau a chymryd eu tro i fwrw'r blociau â'u hoffer.

Mae'r plant yn cydweithredu'n dda ac yn mwynhau cwmni ei gilydd.

## 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn gallu archwilio eu hamgylchedd yn ddirwystr ac yn ddiogel.

Roedd y plant yn mwynhau defnyddio'r gwahanol fannau dysgu yn yr ystafell ac roeddent yn gallu symud yn ddirwystr yn eu mysg fel yr oeddent yn dymuno. Mae llawer o'r plant yn mwynhau chwarae yn yr ardal chwarae rôl ac roeddent yn esgus gwneud paned o de a pharatoi bwyd i'w gilydd. Gwnaeth un grŵp arall o blant dreulio cyfnod hir yn gweithio gyda'i gilydd wrth adeiladu trac trên. Roeddent wedi ymgolli yn llwyr yn y gweithgaredd ac roeddent yn sgwrsio gyda'i gilydd ynglŷn â pha ffordd y dylai'r trac fynd cyn iddynt ddechrau rholio trenau ar hyd y trac ar ôl gorffen.

Roedd y plant yn sylwgar yn ystod yr amser yr oeddent yn treulio mewn grwpiau bach gydag aelod o staff. Er enghraifft, roeddent yn canolbwyntio ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda yn ystod gweithgaredd lliwio digymell oedd yn cael ei harwain gan oedolyn. Roedd y plant hefyd yn awyddus i gymryd rhan yn yr ystumiau yn ystod amser stori ac amser cylch. Nid oedd gweithgareddau strwythuredig arall ar gael ar ddydd ein hymweliad, ac roedd y plant yn cymryd rhan mewn cyfnodau estynedig o 'chwarae rhydd'. Gwnaeth y person â gofal ddweud wrthym nad oedd gweithgareddau â ffocws yn cael eu cynllunio ond ar ddiwrnodau penodol, a bod plant yn cael cyfleoedd i chwarae'n rhydd ar ddiwrnodau arall. Nid oedd neuadd yr ysgol ar gael i'w defnyddio ar ddiwrnod ein hymweliad a threuliodd y plant y sesiwn gyfan mewn un ystafell. Roeddent yn diflasu yn gyflym ac roeddent yn gofyn yn aml i adael yr ystafell i fynd i'r toiled, sydd wedi'i leoli mewn rhan arall o'r ysgol. Roedd hyn yn aflonyddu ar weddill y grŵp gan mai un aelod o staff yn unig a oedd yn aros yn yr ystafell chwarae. Gwnaethom siarad â'r person â gofal am hyn, a dywedodd ei bod yn meddwl bod hyn yn digwydd yn aml am fod y plant eisiau archwilio ardaloedd eraill. Byddai cynnig mwy o gyfleoedd i'r plant archwilio ardaloedd eraill, fel yr ardal chwarae awyr agored, a darparu rhagor o gyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu harwain ac sy'n hwyl a diddorol, yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau canolbwyntio ac yn eu helpu i gynnal ffocws ar dasgau.

Mae'r plant yn gallu canolbwyntio am gyfnodau bach o amser ond weithiau maent yn cael cyfleoedd cyfyngedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu harwain neu i archwilio amgylcheddau gwahanol.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau lle maent yn datblygu eu sgiliau a gallant lwyddo i wneud rhai pethau drostynt eu hunain.

Gwelsom fod y plant yn arwain ac yn cyfarwyddo eu chwarae eu hunain, a bod ganddynt gymhelliad i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Roeddent yn chwilfrydig am eu hamgylchedd ac roeddent yn mwynhau archwilio'r cyfleusterau a’r gweithgareddau a ddarperir. Cawsant eu hannog hefyd i olchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac ar ôl defnyddio'r toiled. Yn ystod amser byrbryd collwyd cyfleoedd i alluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau hunangymorth. Roedd staff yn gosod y byrddau, yn gweini'r byrbrydau ac yn arllwys diodydd pan allai'r plant fod wedi cymryd cyfrifoldeb am rai o'r tasgau.

Mae gan y plant rai cyfleoedd i orffen tasgau drostynt eu hunain ac maent yn gallu dilyn eu diddordebau eu hunain.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn hyrwyddo bwyta'n iach ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ond mae angen iddynt sicrhau bod digon o gyfleoedd yn cael eu darparu er mwyn i'r plant fod yn gorfforol egnïol. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn cynllunio i ddiwallu eu hanghenion unigol. Anogir a rhoddir enghreifftiau da o ymddygiad cadarnhaol, ond nid yw'r staff bob amser yn gallu treulio digon o amser yn cynorthwyo'r plant i ddatblygu sgiliau allweddol trwy weithgareddau a arweinir gan oedolion.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel.

Roedd cofnodion yn dangos bod ymarferion tân wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd, gan sicrhau bod staff a phlant yn gallu gadael yr adeilad mewn argyfwng. Roedd y staff yn gyfarwydd â pholisi diogelu'r gwasanaeth, a oedd yn gynhwysfawr ac wedi cael ei ddiweddaru yn ddiweddar. Roedd y dogfennau a welsom yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac roeddent yn gallu dweud wrthym am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe baent yn pryderu am blentyn. Roedd gan y staff gymwysterau cyfredol mewn cymorth cyntaf pediatrig, sy'n golygu y gallent ymateb i argyfyngau a mân anafiadau. Roedd damweiniau wedi'u dogfennu'n dda, er nad oedd digwyddiad hanesyddol wedi'i lofnodi gan riant. Gwnaethom atgoffa'r person â gofal am yr angen i gael llofnod rhiant ar bob cofnod damwain neu ddigwyddiad, er mwy profi bod rhieni wedi cael eu hysbysu'n briodol am ddigwyddiadau neu unrhyw anafiadau y mae eu plentyn wedi eu derbyn yn y gwasanaeth.

Roedd staff wedi darparu byrbryd iach ar gyfer plant o ffrwyth gyda dŵr neu laeth i'w yfed. Roedd gweithdrefnau hylendid priodol ar waith ac roedd y plant yn cael eu hannog i olchi eu dwylo pan oedd yn briodol. Ar ddiwrnod ein hymweliad, ni chafodd y plant gyfle i fod yn gorfforol egnïol neu i dreulio amser y tu allan yn yr awyr agored. Gwnaethom siarad â'r person â gofal am hyn, a dywedodd eu bod yn defnyddio man chwarae awyr agored yr ysgol ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos, er ei bod ar gael iddynt i'w ddefnyddio unrhyw bryd y dymunant wneud hynny. Dywedodd hefyd, er nad oedd ar gael ar ddiwrnod ein hymweliad, eu bod fel arfer yn gallu defnyddio neuadd yr ysgol, sy'n darparu digon o le ar gyfer gweithgareddau symud sy'n hyrwyddo datblygiad corfforol. Byddai darparu rhagor o gyfleoedd i blant dreulio amser yn chwarae yn yr awyr agored yn hyrwyddo ymarfer corff ac yn datblygu eu sgiliau corfforol.

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau ynglŷn â sut i gadw'r plant yn ddigon diogel ac iach.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac maent yn dangos ymddygiad priodol.

Roedd y staff yn siarad â’r plant mewn modd cynnes ac roedd y plant yn ymlaciedig yn eu cwmni. Roeddent yn adnabod y plant yn dda ac yn gallu eu cyfeirio at weithgareddau a allai fod o ddiddordeb iddynt. Fodd bynnag, roedd y cyfleoedd a gafodd y plant i eistedd gyda'r staff yn gyfyngedig ar ddiwrnod ein hymweliad, gan fod y staff yn brysur yn mynd â’r plant i'r toiled ac yn ôl. Roedd y toiled wedi'i leoli mewn rhan arall o'r ysgol ac roedd hyn yn gadael un aelod o staff yn unig gyda'r plant arall. Golygai hyn fod cyfleoedd i'r staff ymgysylltu â'r plant a threulio amser yn uniongyrchol ar weithgareddau strwythuredig yn gyfyngedig. Fe wnaeth y staff eu hatgoffa’n dyner weithiau am ymddygiad cadarnhaol ac roedd y staff hefyd yn defnyddio iaith enghreifftiol briodol pan oeddent yn gweld mân ddigwyddiadau o ffraeo neu ymddygiad negyddol. Roedd y person â gofal hefyd yn gwybod pan oedd plant wedi diflasu ac yn dod yn fwy swnllyd a byddai'n ailgyfeirio'r grŵp cyfan i gymryd rhan mewn amser cylch. Gwnaeth y plant setlo'n gyflym ac roeddent yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgaredd mwy strwythuredig.

Mae gan y staff berthnasau cadarnhaol â'r plant yn eu gofal.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae’r staff yn darparu awyrgylch gofalgar ac maent yn adnabod anghenion unigol y plant.

Yn ystod y gweithgareddau â ffocws y gwnaethom arsylwi arnynt, roedd staff wrth law i ateb cwestiynau oedd yn galluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth. Roedd y staff yn gofyn cwestiynau syml er mwyn gwella dealltwriaeth y plant. Gwnaed hyn mewn modd hamddenol yr oedd y plant yn gyfforddus ag ef.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion unigol. Roeddent yn adnabod pa blant fyddai angen mwy o gefnogaeth i ganolbwyntio ar weithgareddau ac yn ei darparu yn unol â hynny pan oeddent yn gallu. Cedwid cofnodion o ddatblygiad pob plentyn ynghyd ag enghreifftiau o waith y plant a nodiadau arsylwi a oedd yn nodi eu cyflawniadau. Roedd cynlluniau gweithgareddau yn amlinellu'r sgiliau targed ym mhob un o'r saith maes yn fframwaith y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r plant yn cael eu trin ag urddas a pharch a pherchir eu hunigoliaeth.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae angen i'r arweinwyr sicrhau bod yr holl risgiau a pheryglon i ddiogelwch y plant yn cael eu nodi a'u bod yn amlinellu sut maent yn cynllunio i reoli neu ddileu'r rhain. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac mae pob man yn groesawgar ac yn ddiddorol i blant. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar yn addas ar gyfer hybu datblygiad y plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Dylai'r arweinwyr sicrhau bod system gadarn ar waith i nodi’r risgiau i blant ac i ddangos sut mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli neu'u dileu.

Gofynnwyd inni lofnodi’r llyfr ymwelwyr pan wnaethom gyrraedd y safle a gofynnwyd hefyd i weld ein dogfennaeth adnabod. Cedwid cofrestr ddyddiol o’r plant a’r staff a oedd yn bresennol, fel y gellid rhoi cyfrif am bawb pe digwyddai unrhyw argyfwng. Roedd yr adeilad a'r ardaloedd y tu allan yn ddiogel, a chedwid drysau ar glo yn ystod y sesiwn, a oedd yn sicrhau na fyddai unrhyw bobl yn cael mynediad i'r adeilad heb awdurdod. Mae asesiadau risg ysgrifenedig ar waith ar gyfer rhai o'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant ac roeddent wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru'n ddiweddar. Fodd bynnag, roedd yr asesiadau risg hyn yn eithaf cyffredinol, ac nid oeddent yn cynnwys rhai o'r eitemau mwy penodol ar gyfer ardaloedd a ddefnyddir gan y plant neu'r ardal chwarae yn yr awyr agored. Er enghraifft, ni nodwyd sut roedd risgiau yn yr ardal chwarae awyr agored neu neuadd yr ysgol yn cael eu rheoli ac nid oedd pob perygl yn yr ystafell chwarae wedi'u nodi. Gwnaethom drafod yr angen i nodi'r holl beryglon i ddiogelwch y plant yn yr holl ardaloedd y defnyddir yn rheolaidd ac amlinellu sut byddai'r rhain yn cael eu rheoli a'u dileu os yn bosibl.

Mae dull yr arweinwyr ar gyfer nodi a rheoli peryglon yn anghyson ar hyn o bryd.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel, croesawgar a chyfeillgar.

Roedd y celfi a'r adnoddau i gyd yn briodol ar gyfer anghenion y plant. Roedd y byrddau a’r cadeiriau o'r uchder cywir ac roedd offer ar gael i alluogi plant i ddefnyddio'r toiled ac i ymarfer sgiliau hunangymorth yn annibynnol. Roedd adnoddau a chelfi wedi'u trefnu yn ardaloedd dysgu yn unol ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac roeddent yn darparu amgylchedd priodol ar gyfer chwarae a dysgu. Roedd yr ystafell chwarae'n olau, yn lliwgar ac yn groesawgar. Roedd yr ystafell chwarae'n olau, yn lliwgar ac groesawgar. Roedd digon o le ac roedd eitemau'n cael eu storio a'u labelu'n dda â lluniau fel bod modd i'r plant ddeall beth oedd wedi'i gadw ym mhob blwch. Roedd y waliau yn lliwgar gyda phosteri addysgol yn cael eu harddangos, er enghraifft siart tywydd, llythrennau a diwrnodau'r wythnos. Roedd ambell ffotograff o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn cael

eu harddangos yn ogystal ag arddangosfa oedd yn cynnwys penblwyddi'r plant. Byddai arddangos mwy o enghreifftiau o waith y plant yn rhoi ymdeimlad gwell o berthyn i'r plant.

Nid oes gan y gwasanaeth ei ardal chwarae awyr agored benodol ei hun ond mae'n gallu defnyddio adnoddau'r ysgol, gan gynnwys neuadd yr ysgol a'r ardal chwarae awyr agored. Nid oedd y rhain yn cael eu defnyddio ar ddiwrnod ein hymweliad oherwydd digwyddiad oedd yn cael ei gynnal yn yr ysgol, ond dywedodd y person â gofal wrthym eu bod fel arfer yn cael eu defnyddio ar y rhan fwyaf o ddyddiau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer anghenion y plant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau ac offer sy'n briodol ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant sy'n mynychu.

Mae'r arweinwyr yn darparu teganau sydd mewn cyflwr da ac yn addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Gwelsom fod adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Dywedodd y person â gofal wrthym fod y teganau a'r adnoddau yn cael eu glanhau yn rheolaidd ond nid oedd cofnodion ffurfiol yn cael eu cadw am hyn. Gwnaethom drafod sut byddai cadw log fel tystiolaeth o bob tro yr oedd adnoddau'n cael eu glanhau yn helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd yn rheolaidd. Roedd amrediad o ardaloedd ar gael i blant eu harchwilio, yn cynnwys adnoddau adeiladu, teganau byd bach, dewis o lyfrau, ac adnoddau gwisgo i fyny a chwarae rôl.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da ar gael i'r plant sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae’r arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau. Ffurfiwyd perthnasau da â rhieni ac â phartneriaid allanol, a rhennir gwybodaeth yn effeithiol. Dylai'r arweinwyr sicrhau bod gweithdrefnau cyflogi cadarn ar waith i fodloni eu hunain bod y staff i gyd yn gymwys, yn gymwysedig ac yn addas i weithio yn y gwasanaeth.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod polisïau wedi eu sefydlu a bod nodau ac amcanion y gwasanaeth yn glir i’r holl staff.

Roedd y polisïau yn gynhwysfawr ac yn cynnwys llawer o wybodaeth oedd yn galluogi'r staff i ddeall eu cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau cywir i’w dilyn. Roedd staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir i’w dilyn ac roeddent yn gosod y rhain ar waith yn eu hymarfer o ddydd i ddydd. Er enghraifft, gwelsom y staff yn rhoi'r polisi rheoli ymddygiad ar waith yn effeithiol yn ystod ein hymweliad. Clywsom staff yn siarad Cymraeg â'r plant trwy gydol y dydd. Roedd yr arweinwyr a’r staff i gyd wedi ymrwymo i ddarparu’r ‘Cynnig Gweithredol’ ac i hybu’r defnydd o’r Gymraeg. Roedd y datganiad o ddiben yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Mae'r arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod y polisïau a’r gweithdrefnau yn cael eu dilyn ac maent yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn awyddus i roi gweithdrefnau ar waith i adolygu ansawdd y gwasanaeth.

Gwnaethom siarad â'r person â gofal ynglŷn â sut roeddent yn cynllunio i weithredu adolygiad o ansawdd y gofal. Dywedodd ei bod yn gofyn am adborth llafar oddi wrth rieni yn rheolaidd ac roeddent hefyd yn gallu cysylltu â hi gydag unrhyw awgrymiadau neu broblemau. Gan fod y gwasanaeth wedi bod yn gweithredu am gyfnod byr yn unig nid oedd holiaduron adborth wedi cael eu hanfon allan at rieni eto, ac er bod adborth wedi'i gasglu oddi wrth y plant yn ystod arsylwadau dyddiol, nid oedd hyn wedi'i gasglu'n ffurfiol. Dywedodd y person â gofal wrthym ei bod yn bwriadu gwneud hyn yn ystod y misoedd nesaf, a gwnaethom hysbysu am y templed adroddiad ansawdd gofal sydd ar gael ar wefan AGC er mwyn helpu i gasglu unrhyw adborth wrth gynllunio ar gyfer gwelliannau.

Mae'r arweinwyr yn awyddus i ddefnyddio gwybodaeth a dderbynnir oddi wrth rieni a'u plant i wella'r gwasanaeth.

## 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n dda a'u bod yn cael cymorth er mwyn iddynt allu cyflawni eu rolau yn effeithiol.

Dywedodd y person â gofal wrthym fod ganddi berthynas weithio dda â'r unigolion cyfrifol a'u bod yn gallu trafod unrhyw faterion sy'n codi yn hawdd o ddydd i ddydd. Roedd ffeiliau ar gael ar gyfer bob aelod o staff ac roedd y ffeiliau ar gyfer y ddau aelod o staff parhaol yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y wybodaeth a'r gwiriadau addasrwydd gofynnol ar gael yn ffeiliau'r staff wrth gefn. Nid oedd y ffeiliau staff hyn yn cynnwys tystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, hanes cyflogaeth llawn neu unrhyw eirdaon. Gwnaethom siarad â'r person â gofal am hyn, a roddodd sicrwydd bod tystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith a bod y dogfennau wedi'u gweld. Buom yn trafod yr angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am bob aelod o staff yn y dyfodol yn cael ei chasglu, i sicrhau bod y staff sy'n gofalu am y plant yn addas, a bod y plant bob amser yn ddiogel. Ers yr arolygiad, rydym wedi derbyn tystiolaeth o dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac un geirda ar gyfer yr aelod o staff wrth gefn.

Dylai arweinwyr sicrhau eu bod yn dilyn proses recriwtio gadarn i'w galluogi i sicrhau addasrwydd darpar aelodau o staff i weithio gyda phlant.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydweithio'n glòs gyda'r rhieni, ac y rhennir gwybodaeth yn effeithiol.

Dywedodd y person â gofal bod ganddynt berthynas da gyda staff yr ysgol a'u bod yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth am ddatblygiad y plant, a'u bod yn gwneud trefniadau i ddefnyddio adnoddau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau. Roedd cofnodion o ddatblygiad y plant yn cael eu rhannu â'r ysgol er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn gallu parhau i gael eu diwallu yn effeithiol pan oeddent yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth meithrin. Dywedodd y person â gofal wrthym eu bod yn derbyn ymweliadau rheolaidd gan athro ymgynghorol o'r awdurdod lleol a swyddog cymorth o'r sefydliad ymbarél. Cadarnhawyd hyn gan gofnod o'r ymweliadau hyn yn y llyfr ymwelwyr.

Gwelsom y person â gofal ac aelod o staff yn siarad gyda rhieni pan oeddent yn casglu eu plant, yn rhannu adborth â nhw ac yn gofyn cwestiynau am y plant. Roedd y rhieni yn gyfforddus wrth ofyn staff am wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth. Dywedodd rhieni y buom yn siarad â nhw fod eu plant wedi ymgartrefu'n dda yn y gwasanaeth, gydag un yn dweud bod ei phlentyn yn *'caru dod yma'* a bod ei phlentyn *'wedi gofyn i ddod ar ragor o ddiwrnodau'* a dywedodd un arall fod y person â gofal yn *'dda iawn am adael iddynt wybod popeth roedd angen i ni ei wybod'.*Roedd y llawlyfr i rieni a welsom yn cynnwys digon o wybodaeth i sicrhau bod rhieni'n deall y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir, fel eu

bod yn ymwybodol o'r hyn roedd y gwasanaeth yn ei gynnig cyn i'w plentyn ddechrau mynychu.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod partneriaethau positif yn bodoli rhwng y staff, y rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom hysbysu'r person â gofal nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio am na chanfuom dystiolaeth, ar yr achlysur hwn, fod hyn yn cael effaith niweidiol ar les y plant. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r arweinwyr gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion canlynol:

**Canfuom nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 25 Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010**

Mae'n rhaid i'r arweinwyr sicrhau bod risgiau yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol. Nid yw hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan nad yw'r asesiadau risg sydd ar waith yn cwmpasu pob ardal sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan y plant. Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer nifer o ddigwyddiadau oedd wedi'u cynnal, ac ar gyfer rhai peryglon oedd wedi cael eu nodi, ond nid oedd pob perygl i ddiogelwch y plant wedi'i nodi.

**Canfuom nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 28 Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru): 2010**

Rhaid i'r arweinwyr sicrhau bod yr holl ddogfennau rheoleiddiol gofynnol yn cael eu cynnwys yn ffeiliau'r staff. Nid oedd hyn yn cael ei wneud ar adeg yr arolygiad gan nad oedd ffeiliau'r staff wrth gefn yn cynnwys tystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, hanes cyflogaeth llawn neu unrhyw eirdaon. Cydnabuwyd hyn gan y person â gofal a rhoddodd sicrwydd i ni y byddai'r holl ddogfennau a gwybodaeth reoleiddiol yn cael eu casglu ar gyfer pob aelod o staff. Ers adeg yr arolygiad rydym wedi derbyn tystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac un geirda.

Gwnaethom hefyd yr argymhellion arfer da canlynol:

- Dylai'r arweinwyr sicrhau eu bod yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig a arweinir gan oedolyn mewn grwpiau bach. Byddai hyn yn sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu

- Dylai arweinwyr sicrhau eu bod yn rhoi ymdeimlad gwell o berthyn i'r plant drwy arddangos ffotograffau a rhagor o enghreifftiau o'u gwaith o amgylch yr ystafell chwaraeDylai arweinwyr sicrhau eu bod yn rhoi ymdeimlad gwell o o berthyn i'r plant drwy arddangos ffotograffau a rhagor o enghreifftiau o'u gwaith o amgylch yr ystafell chwarae

- Dylai cyfleoedd cael eu darparu er mwyn i'r plant dysgu sgiliau hunangymorth a dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain yn ystod amser byrbrydau

- Dylai arweinwyr cadw cofnod cywir o pan mae teganau ac adnoddau yn cael eu glanhau

- Dylai arweinwyr sicrhau bod llofnod rhiant yn cael ei gasglu ar gyfer bob damwain a digwyddiad a gofnodir

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn, dirybudd oedd hwn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth rhwng 12.30pm a 3.30pm ar 16 Mawrth 2018.

Gwnaethom y canlynol:

- Edrych ar sampl o'r ddogfennaeth a'r polisïau
- Arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan staff
- Siarad â'r plant, y staff, y person â gofal a dau riant
- Edrych ar yr ardaloedd a ddefnyddid gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad
- Cyflwyno adborth manwl i'r person â gofal ynglŷn â'n canfyddiadau a'r materion y dylid rhoi sylw iddynt

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglyn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Unigolion Cyfrifol** | **Iwan Taylor**<br>**Clair Doloriert**<br>**Martin Kelly-Roberts** |
| **Person â gofal** | **Sophie Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **28** |
| **Ystod oedran y plant** | **Dwy a hanner i bedair blwydd oed** |
| **Oriau agor** | **12.30pm – 3pm o ddydd Llun i ddydd Iau yn ystod tymor yr ysgol.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ar ôl cofrestru.** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **16 Mai 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Ydy** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |